# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 7 Hydref 2003 i'w hateb ar 21 Hydref 2003

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**
**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**1. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar allfudiad pobl ifanc o ardaloedd gwledig. (OAQ28850)

**2. Brian Gibbons (Aberafan);** A yw'r Prif Weinidog wedi cyflwyno unrhyw sylwadau i Lywodraeth y DU ar gynnydd parhaol premiymau yswiriant ar gyfer nifer o'r sectorau diwydiannol yng Nghymru. (OAQ28848)

**3. Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i roi cymorth i fentrau Cydweithredol yng Nghymru. (OAQ28838)

**4. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddarparu ysgolion cyfrwng Cymraeg lle mae galw amdanynt gan rieni. (OAQ28855)

**5. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynllun teithiau bws am ddim i'r henoed yng Nghymru. (OAQ28832)

**6. David Davies (Mynwy);** Sut y mae polisïau addysg y weinyddiaeth hon wedi effeithio ar Sir Fynwy. (OAQ28849)

**7. Christine Chapman (Cwm Cynon);** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cymryd i annog pobl i ddefnyddio tân gwyllt yn synhwyrol. (OAQ28834)

**8. Val Lloyd (Dwyrain Abertawe);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar arwyddocâd ei bolisi o gynnig brecwastau iachus am ddim i bob plentyn o oedran cynradd yng Nghymru erbyn 2007. (OAQ28852) **TYNNWYD YN ÔL**

**9. Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy);** Pa gymorth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei ddarparu i leihau'r achosion o gamddefnyddio tân gwyllt yr adeg hon o'r flwyddyn. (OAQ28835)

**10. Leighton Andrews (Rhondda);** A yw'r Prif Weinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Phrif Weinidog yr Alban ynghylch y berthynas rhwng Aelodau o Senedd yr Alban/ ACau sy'n cynrychioli rhanbarthau a'r rheini sy'n cynrychioli etholaethau. (OAQ28833)

**11. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau y mae'r llywodraeth yn eu cymryd i gryfhau cymunedau yng Nghymru. (OAQ28829)

**12. Lynne Neagle (Tor-faen);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i foderneiddio'r GIG yng Nghymru. (OAQ28847)

**13. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa gymhelliad sydd gan ysbytai i leihau eu rhestrau aros. (OAQ28857) **W**

**14. Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch yr adroddiadau bod cynnig wedi'i wneud i brynu Stadiwm y Mileniwm. (OAQ28846)

**15. David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo twristiaeth yng Nghanol De Cymru. (OAQ28825)